



CYNHADLEDD & Gwobrau 2024

YN CYNNWYS



Julie Morgan AS
*Dirprwy Weinidog
Iechyd a Gofal
Cymdeithasol*



Seremoni Wobrwyo
*Gwobrau wedi'u
gan westeion
arbennig*



Gweithdai
*Rhwydweithio
gyda'ch cydweithwyr
yng Ngorllewin Cymru*



Panel Cyfarwyddwyr
*Sesiwn holi ac ateb gyda'n
harweinwyr iechyd a gofal
cymdeithasol*

Diolch am ymuno â ni heddiw yng Nghynhadledd a Gwobrwyon BPRGC 2024. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau eich amser gyda ni am ddiwrnod o rannu arfer gorau a chynllunio ar gyfer dyfodol gwell i iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru.



Parc Y Scarlets, Llanelli, SA14 9UZ
14th Mawrth 2024 at 9 :30AM- 3:30pm



#WWRPB
@PGGCWWCP

Ewch i'n gwefan i
gael y wybodaeth
ddiweddaraf:



www.wwrpb.org.uk

Ymholiadau pellach:



wwrpb@carmarthenshire.gov.uk

CROESO I GYNHADLEDD A GWOBRAU BPRHGC



CANLLAW GWYBODAETH

Croeso i Gynhadledd a Gwobrwyon Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2024. Rydym wrth ein bodd eich bod yn ymuno â ni am ddiwrnod o ysbrydoliaeth, dysgu a chydabyddiaeth. Mae'r llyfryn gwybodaeth hwn yn cynnwys popeth sydd angen i chi ei wybod am y diwrnod i ddod.

03	Agenda	11	Gweithdy Dau & Cinio
04	Map y Lleoliad	12	Seremoni Wobrwyo
06	Sefydliadau Trydydd Sector	14	Panel Cyfarwyddwyr
08	Cymryd Rhan â'r BPRGC	15	Diolch
10	Gweithdy Un	16	Q&A

BETH SYDD ANGEN I CHI EI WYBOD AM PARC Y SCARLETS

Mae larymau tân Parc y Scarlets yn sensitif i gael eu canu. Os ydynt yn swnio, arhoswch am gyfarwyddiadau gan staff i gadarnhau a yw'n argyfwng go iawn.



Mae gan Parc y Scarlets WiFi i westeion sydd am ddim i'w ddefnyddio.

EISIAU I'CH CWESTIWN GAEL EI ATEB GAN Y CYFARWYDDWYR YN YSTOD SESIWN HOLI AC ATEB HEDDIW?



Cyflwynwch eich cwestiwn trwy glicio ar y botwm cyflwyno! Ond brysiwch, mae amser yn brin a dim ond y cwestiynau gorau fydd yn cael eu dewis. Felly gwnewch i'ch un chi gyfri!

AGENDA




Cofrestriad & Arddangosfeydd Trydydd Sector Lolfa Quinell yw eich lleoliad canolog ar gyfer y gynhadledd a'r seremoni wobrwyo. Wrth i chi ddod i mewn, bydd y sefydliadau trydydd sector ar y dde i chi.	Amser 9:30
Welcome to the WWRPB Conference and Awards Yn Lolfa Quinell, bydd rheolwr partneriaeth BPRGC Linda Jones yn eich croesawu i'r diwrnod, ac yna bydd cadeirydd BPRGC, Judith Hardisty, yn gwahodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Julie Morgan AS i roi'r anerchiad agoriadol.	Amser 10:00
Gweithdy Un Byddwn yn eich dangos i'ch gweithdy penodedig	Amser 10:30
Gweithdy Dau Byddwn yn eich dangos i'ch gweithdy penodedig	Amser 11:30
Cinio Ymunwch â ni yn Lolfa Quinell am ginio.	Amser 12:30
WWRPB Awards Ceremony Yn Lolfa Quinell rydym yn croesawu'r siaradwr gwadd Samantha Horwill ac yn datgelu enillydd pob un o'r 6 categori gwobrau.	Amser 13:30
Panel Cyfarwyddwyr Ymunwch â ni yn Lolfa Quinell ar gyfer sesiwn Holi ac Ateb y cyfarwyddwyr!	Amser 15:00
Sylwadau i gloi gan Linda - gorffen am 3:30pm.	Amser 15:25

MAP Y LLEOLIAD




Defnyddiwch y brif fynedfa i adeilad Parc y Scarlets, bydd grisiau a lifft ar y llawr gwaelod, mae cynhadledd a gwobrau BPRGC yn cael eu cynnal ar y llawr cyntaf, ail llawr a thrydydd llawr.

LLAWR CYNTAF



Heineken Lounge

AIL LLAWR



Registration Desk



Third Sector Showcase




Quinell Lounge



Lunch



Tea and Coffee




Registration

MAP Y LLEOLIAD



TRYDYDD LLAWR





Cofrestrriad & ARDDANGOSFEYDD TRYDYDD SECTOR

YMUNWCH Â NI YN LOLFA QUINELL

Lolfa Quinell yw eich lleoliad canolog ar gyfer y gynhadledd a'r seremoni wobrwyo. Wrth i chi ddod i mewn, bydd y sefydliadau trydydd sector ar y dde i chi. Bydd yr ystafell hon yn gwasanaethu fel ein man croeso yn y bore, ystafell weithdy trwy gydol y dydd, a lle bydd y diwrnod yn cloi gyda seremoni wobrwyo i ddatlu.

DEWCH I GWRDD Â SEFYDLIADAU YSBRYDOLEDIG YN ARDDANGOSFA'R TRYDYDD SECTOR!



ATAXIA AND ME <https://www.ataxia-and-me.org/about/>

“Mae Ataxia and Me wedi cael ei sefydlu i godi ymwybyddiaeth o atacsia yng Nghymru, y DU ac o gwmpas y byd. Ein cenhadaeth yw darparu gwybodaeth a chymorth i bawb y mae'r cyflwr "sy'n cyfyngu ar fywyd" yn effeithio arnynt. Rydym yn canolbwyntio ar atacsia ond yn anelu at gynnwys afiechydon prin ac anhwylderau symud cysylltiedig hefyd.”



ASSIST MY LIFE <https://assistmylife.wales/about/>

“Dechreuodd AssistMyLife fel ap i helpu pobl i wella eu bywydau. Yn fuan datblygodd yn brosiect enfawr sydd, yn ein barn ni, yn sail i'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wirioneddol gynhwysol a darparu offer go iawn i ennill annibyniaeth ystyrlon.”



CROESO I CYSYLLTU SIR BENFRO

[PCH Website](#)

“Mae'r llwyfan cymunedol hwn ar gyfer unrhyw un sy'n byw yng Sir Benfro sydd am wella eu lles. Dewch o hyd i weithgareddau lleol, cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol a chwrdd â phobl sy'n rhannu eich diddordebau. Dyma'r lle ar gyfer gweithredoedd bach o garedigrwydd rhwng pobl yn Sir Benfro, yn seiliedig ar y sgil unigol sydd gennych i'w gynnig neu'r broblem benodol y mae angen ei datrys.”



YMA <https://cy.dymani.cymru/about>

“Mae Yma yn fenter gymdeithasol ddielw, sy'n bodoli eisoes i greu posibiliadau ar gyfer gofal eithriadol i bobl Cymru nawr, ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae llawer o wahanol sefydliadau ac asiantaethau yn herio â hyfywedd y system iechyd yng Nghymru. Bydd yr heriau rhain yn ffurfio siap ein system gofial iechyd a chymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Mae'r lens yr ydym yn ymgymryd â'n gwaith drwyddo, Gan eirioli o'r gwreiddiau, bod yn agored i bob posibilrwydd heb gael ei glymu at y status quo (hyd yn oed ei wrthod lle bo angen) a chwilio am ffyrdd amgen i'r system fodoli, yn ein gosod ar wahân. Mae hyn yn gwneud Yma'n unigryw yng Nghymru.”



ARDDANGOSFEYDD TRYDYDD SECTOR



CAVO

<https://www.cavo.org.uk/cy/amdanom/>

“Mae CMGC yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn grymuso gweithredu cymunedol gwirfodd yng Ngheredigion. Ers 1997, mae Tîm CMGC wedi hyrwyddo a chefnogi gwirfoddolwyr a gweithredu cymunedol gwirfoddol yng Ngheredigion – o ddod o hyd i wirfoddolwyr eu rôl berffaith i roi grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol, mae Tîm CMGC yma i helpu.”



PAVS

<https://www.pavs.org.uk/cy/>

“Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol, gwirfoddolwyr ac unigolion yn Sir Benfro.”



CAVS

<https://cavs.org.uk/amdanom-ni/?lang=cy>

“Mae CAVS yn elusen annibynnol, y corff ymbarél ar gyfer y trydydd sector yn Sir Gâr. Mae CAVS yn cynnig gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth i fudiadau a grwpiau cymunedol, gan eu galluogi i ddod yn gynaliadwy ac yn effeithiol.”



PLANT DEWI

<https://www.plantdewi.org.uk/cy/hafan/>

“Mae Plant Dewi yma i helpu i gefnogi teuluoedd ledled de-orllewin Cymru Mae Plant Dewi wedi bod yn cefnogi teuluoedd ers 2002. Ein cenhadaeth yw i feithrin teuluoedd ac atgyfnerthu cymunedau yn Esgobaeth Tyddewi, sy'n cynnwys Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro yng ngorllewin Cymru. Rydym yn cynnig gwasanaethau mynediad agored am ddim, sy'n gweithredu fel man cyfarfod lleol i blant a theuluoedd, yn cynnig cymorth i deuluoedd ac yn helpu teuluoedd i ddatblygu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol.”



CYMORTH I OFALWYR GORLLEWIN CYMRU

<https://carerssupportwestwales.org/>

“Mae gwefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru yn siop un stop ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n cynnig ffordd gyflym a hawdd o ddod o hyd i wybodaeth benodol i ofalwyr yn y tair sir. Mae Cymorth i Ofalwyr Gorllewin Cymru wedi'i rannu'n dair adran benodol, ' Newyddion ', ' Fy Nghymuned ' a ' Chefnogaeth ', sy'n galluogi gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i lywio'r llwyfan yn hawdd ac archwilio gwybodaeth yn lleol ac yn rhanbarthol.”

CYMRYD RHAN Â'R BPRGC



Rydym yn grŵp o gynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ceredigion, Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth annibynnol a'r trydydd sector a gofalwyr di-dâl. Ein nod yw sicrhau bod gan bobl y cymorth cywir ar yr adeg gywir i wella eu canlyniadau iechyd a lles.

HAZEL LLOYD LUBRAN

Prif Weithredwr CAVO



JUDITH HARDISTY

Is-Gadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

ARDIANA GJINI

Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus



JAKE MORGAN

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedau

ALAN THOMAS

Sylfaenydd Ataxia a WWRPB cynrychiolydd dinasyddion



MICHAEL GRAY

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

ANNA BIRD

Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Partneriaethau Strategol, Amrywiaeth a Chynhwysiant



GARETH MORGANS

Cyfarwyddwr - Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

DONNA PRITCHARD

Dirprwy Cyfarwyddwr Gwasanaethau, Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion



ESTELLE HITCHON

Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Welsh Ambulance Services NHS Trust

CYMRYD RHAN Â'R BPRGC



ALUN WILLIAMS

Aelod y Cabinet, Cyngor Sir Ceredigion



TESSA HODGSON

Aelod y Cabinet, Cyngor Sir Penfro

JANE TREMLETT

Aelod y Cabinet, Cyngor Sir Gar



HILARY JONES

Prif Weithredwr Bro Myrddin

CATHRYN THOMAS

Gofal Cymdeithasol Cymru



JILL PATERSON

Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hir-dymor, Hywel Dda

JONATHAN MORGAN

Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, Cyngor Sir Gar



RHODRI EVANS

Aelod Annibynnol - Llywodraeth Leol


GWEITHDY UN



MAE EICH GWEITHDAI WEDI'U NODI AR EICH TAGIAU ENW. GELLIR GWELD MAP O GYNLLUNIAU'R YSTAFELLOEDD AR DUDALEN 3 & 4.


PA WEITHDAI SYDD GYNTAF?

GWEITHDY PERFFORMIAD AC ADRODD




Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn dda iawn am gasglu data, ond faint o ddefnydd ydym ni'n ei wneud ohono mewn gwirionedd? Sut gallwn ni ddefnyddio'r data a gasglwn i lywio a datblygu ein prosesau? Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio rhywfaint o ddadansoddi data syml a all ein helpu i ddysgu a deall yr hyn sy'n wirioneddol bwysig. Mae data ar gyfer gwybodaeth am berfformiad, nid adroddiadau yn unig! Bydd y gweithdy hwn yn cael ei arwain gan Simon Williams, Rheolwr Rhaglen a Newid (Perfformiad).

ASESIAD ANGHENION IECHYD ARCH




Wedi'i chyflwyno gan Dr Michael Thomas (Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus), mae'r sesiwn hon yn cynnwys Llyr Lloyd (Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus) yn amlinellu canfyddiadau allweddol o Aseiad Anghenion Iechyd ARCH, ffactorau achosol ac ystod o gyflyrau. O ystyried y llu o bosibiliadau ar gyfer gweithredu'n ataliol, bydd cyfranogwyr yn ystyried pa effaith y gallant hwy, eu sefydliadau, a gweithredu ar y cyd – ei chael ar y mater.

DEMENTIA WORKSHOP



Lansiwyd Strategaeth Dementia Ranbarthol Gorllewin Cymru yn 2023. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi trosolwg o'r strategaeth ac yn tynnu sylw at gynnydd, llwyddiannau a heriau ac yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ystyried sut mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'u gwaith. Bydd y gweithdy hwn yn cael ei arwain gan Monica Bason-Flaquer, Rheolwr Rhaglen a Newid, a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r rhanbarth sy'n cyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol y strategaeth.

CAPITAL WORKSHOP



Mae Andrew yn rheoli'r rhaglen gyfalaf ranbarthol, gyda chefnogaeth swyddfa fach ar gyfer y rhaglen, sydd â'r dasg o gefnogi partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni Strategaeth Gyfalaf Ranbarthol deng mlynedd newydd.

Nod y strategaeth yw datblygu ein gweledigaeth fel Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i helpu pobl i aros yn agosach i gartref ac i dderbyn gofal a chymorth yn eu cymunedau. Yn allweddol i hynny yw'r angen i wneud y defnydd gorau o'n technolegau newydd yng nghartrefi pobl ac yn ein cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar yr angen i ranbarth Gorllewin Cymru ddiffinio glasbrint ar gyfer canolfannau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol, gan adeiladu ar amcanion y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

Bydd trafodaethau'n edrych ar yr hyn rydym yn ei olygu o ran glasbrint ar gyfer hybiau cymunedol a'r angen i adeiladu ar yr egwyddorion allweddol a amlinellir ar gyfer datblygiadau cyfalaf yn y rhanbarth.



MAE EICH GWEITHDAI WEDI'U NODI AR EICH TAGIAU ENW. GELLIR GWELD MAP O GYNLLUNIAU'R YSTAFELLOEDD AR DUDALEN 3 & 4.

PA WEITHDAI FYDD YN CAEL EU CYNNAL NESAF?

GWEITHDY PERFFORMIAD AC ADRODD

Mae'r gweithdy'n ailadrodd.

ASESIAD ANGHENION IECHYD ARCH

Mae'r gweithdy'n ailadrodd.

REGIONAL CARERS STRATEGY WORKSHOP

Ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddwyd Ein Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025: Gwella Bywydau Gofalwyr gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Mae'r Strategaeth wedi sefydlu pedwar maes blaenoriaeth allweddol sy'n cymryd safbwynt tymor hwy ac sy'n gosod y weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi trosolwg o'r strategaeth ac yn tynnu sylw at gynnydd, llwyddiannau a heriau ac yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ystyried sut mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'u gwaith ac yn llywio'r broses o adnewyddu'r strategaeth sydd ar ddod. Bydd y gweithdy hwn yn cael ei arwain gan Monica Bason-Flaquer, Rheolwr Rhaglen a Newid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; Anna Bird, Cadeirydd y Grŵp Datblygu Gofalwyr; a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r rhanbarth sy'n cyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol y strategaeth.



BABIES CHILDREN AND YOUNG PEOPLE

Bydd y gweithdy'n archwilio beth mae 'Ysgol sy'n Hybu Iechyd' yn ein cymunedau yn edrych fel, yn ogystal â chanolbwyntio ar 'Dull Ysgol Gyfan at Iechyd Emosiynol a Lles Meddyliol'. Bydd y gweithdy hefyd yn edrych i archwilio sut y gall partneriaid gefnogi a dylanwadu ar iechyd a lles plant a phobl ifanc o fewn lleoliad addysgol.



CINIO

YMUNWCH Â NI YN LOLFA QUINELL AM GINIO.

WWRPB SEREMONI WOBRWYO



CANIATEIR I CHI DYNNU LLUNIAU A FIDEOS YN YSTOD Y SEREMONI WOBRWYO

CROESO I'R WWRPB AWARDS CEREMONY

Mae'r gwobrau'n dathlu gwaith rhagorol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru. Mae unigolion, timau, grwpiau, a sefydliadau o bob sector—y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, a'r trydydd sector—yn gymwys i enwebu eu hunain neu gael eu henwebu gan eraill. Dyma gyfle i rannu eich cyflawniadau gyda chydweithwyr a dathlu effaith gyfunol y sector.

SIARADWYR GWADD



SAMANTHA HORWILL Cyd-sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr

Mae gan Sam 15 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y GIG a chyda'r GIG ledled y DU, gan ddatblygu a chyflwyno modelau gwasanaeth newydd a arweinir gan y gymuned i gynorthwyo cydweithrediad ac arloesiad. Yn 2019 fe'i gwahoddwyd i rannu ei gwaith yn y GIG yng Nghymru gan TEDx Aberystwyth.

Y RHAI SYDD WEDI CYRRAEDD Y ROWND DERFYNOL YW:

Trawsnewid drwy Arloesedd

Diben y categori hwn yw dathlu: Tîm neu unigolyn sydd wedi gwneud newid sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar staff, cleifion neu Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw:

- Alexandra Rees
- Ceredigion Direct Payments Support Service
- Alison Jones and Emma Catling

Gofal Integredig

Diben y categori hwn yw dathlu: Lle mae trefniadau ar y cyd a gweithio integredig wedi gwella bywydau ein dinasyddion. y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw:

- Nutrition and Hydration in a Dementia Friendly Hospital (Hywel Dda University Health Board) - Heather Hadizad
- Fran Bayley; Nia Williams; Steffan Warren
- Leigh George and the Carmarthenshire Integrated Community Equipment Service (CICES) Team



Tîm y Flwyddyn

Diben y categori hwn yw dathlu: Y tîm sydd wedi dangos rhagoriaeth mewn cydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth. y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw:

- The VC Gallery (CEO - Mr Barry John & Stephanie Cross - Project Manager)
- Pembrokeshire Community Hub
- Emmaline platek and David Thomas Q care west Watkins
- RAY Ceredigion

Cydgynhyrchu

Diben y categori hwn yw dathlu: Prosiect neu dîm sydd wedi dangos cyd-gynhyrchu gwirioneddol ac arweinyddiaeth a chydweithio parhaus a arweinir gan ddefnyddwyr. y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw:

- Pathways to Employment – Social Media Team
- Julie Cunningham - Integrated Family Support Team (IFST) Practitioner
- Carers Support West Wales (led by PAVS)

Datblygu'r Gweithlu

Diben y categori hwn yw dathlu: Tîm neu brosiect sydd wedi effeithio'n sylweddol ar lesiant. y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw:

- Sarah Hanley - Team Manager
- Coaching Network Team
- Health & Social Care team of Assessors

Cyfraniad Eithriadol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Diben y categori hwn yw dathlu unigolyn neu dîm sydd wedi gwneud cyfraniad neu gyflawniad rhagorol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru. y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw:

- Anna Prytherch
- Avril Bracey
- Lucy Cummings
- Lance Morgan

PANEL CYFARWYDDWYR



PWY SYDD AR Y PANEL?

**HAZEL LLOYD
LUBRAN**

Prif Weithredwr CAVO



JUDITH HARDISTY

Is-Gadeirydd i Fwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda



ARDIANA GJINI

Gyfarwyddwr Iechyd
Cyhoeddus



LINDA JONES

Rheolwr Busnes
Adolygiadau Ymarfer
Rhanbarthol



DIOLCH AM YMUNO Â NI HEDDIW



**BLE ALLWCH CHI DDOD O HYD I LUNIAU, FIDEOS A GWYBODAETH
AM HEDDIW?**

WWW.WWRPB.ORG.UK

Mae croeso i chi ddefnyddio'r delweddau a pheidiwch ag anghofio ein tagio os ydych yn eu rhoi ar eich cyfryngau cymdeithasol.

CYMRYD RHAN Â'R BPRGC

Rydym yn annog cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalgwyr, ym mhroses gwneud penderfyniadau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Maent yn helpu i lywio a siapio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn cynrychiolydd dinasyddion, cysylltwch â ni drwy anfon neges at wwrpb@carmarthenshire.gov.uk neu ewch i'n gwefan heddiw i ddysgu rhagor!



GADEWCH ADBORTH I NI AR GYFER Y GYNHADLEDD A'R GWOBRAU:



Cyflwynwch eich adborth trwy glicio ar y botwm adborth! Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y diwrnod ac os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud y tro nesaf i wneud y diwrnod hyd yn oed yn well.

FAQ



A FYDD LLUNIAETH AR Y DIWRNOD?

Bydd te a choffi yn cael eu gweini drwy gydol y bore a'r prynhawn, yn ogystal â chinio am ddim.

YDY'R STADIWM YN HYGJRCH?

Mae gan Barc y Scarlets lifftiau i bob llawr, sydd wrth ymyl y grisiau. Os oes gennych ofynion ychwanegol, cysylltwch â ni, rydym yn hapus i helpu.

FFOTOGRAFFAU A FIDEOS YN Y DIGWYDDIAD

Dylech fod yn ymwybodol y bydd ffotograffwyr a fideograffwyr yn bresennol yn y gynhadledd a'r seremoni wobrwyo ddydd Iau, 14 Mawrth 2024. Pan fyddwch yn mynychu'r digwyddiad, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich ffilmio neu y bydd ffotograffau yn cael eu tynnu ohonoch chi

CAEL Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU YMA:



<https://wwrpb.org.uk/>



<https://m.facebook.com/PGGCWWCP/>



<https://twitter.com/pggcwwcp?lang=en>



<https://www.instagram.com/pggcwwcp/?hl=en-gb>